Rhestr Wirio - Facebook

- ☐ Ydyc h chi'n adnabod eich ffrindiau?
- ☐ Pwy sy'n gweld eich cynnwys ar Facebook?
- ☐ Dwi'n ymwybodol o'r diweddariadau ar gyfer defnyddwyr yn eu harddegau
- ☐ Gallaf ddefnyddio Offerynnau Adrodd Facebook
- ☐ Sut ydw i'n analluogi fy nghyfrif?
- ☐ Sut gallaf newid yr hysbysebion dwi'n eu gweld?
- ☐ Sut i reoli rhestrau ffrindiau?
- ☐ Cymrwch reolaeth ar eich Apiau a'ch Gemau!



Diweddariadau defnyddwyr yn eu harddegau

Mae'n bwysig bod y bobl ifanc sy'n defnyddio Facebook yn defnyddio dyddiad geni go iawn.

- Mae rhagosodiadau preifatrwydd i ddefnyddwyr newydd 13-18 oed yn rhannu cynnwys gyda 'ffrindiau' yn unig.
- Gallwch ddewis rhannu'n **Gyhoeddus** ond bydd pawb yn gallu gweld, gan gynnwys pobl rydych chi'n eu hadnabod. Felly, meddyliwch yn ofalus cyn i chi bostio unrhyw beth yn gyhoeddus. Fyddech chi'n hapus i'r grwpiau canlynol weld eich cynnwys:
  - Eich rhieni
  - Eich cariad
  - Eich athrawon
  - Darpar gyflogwyr y dyfodol

Gallwch adolygu'r bobl rydych chi'n rhannu cynnwys â nhw ar ôl postio ond cofiwch, gall rhywun fod wedi ei rannu yn barod pan yn gyhoeddus.

Sut i reoli Rhestrau Ffrindiau?

Ystyriwch greu 'rhestr ffrindiau' er mwyn gallu rhannu gwybodaeth wahanol gyda'ch cynulleidfaoedd dewisol.

Sut i Greu Rhestr Ffrindiau

1. Ar y dudalen Hafan, sgroliwch i'r adran Ffrindiau a dewis **Mwy**
2. Yna dewiswch **Creu Rhestr**
3. Ysgrifennwch teitl y rhestr
4. Rhowch enw'r ffrindiau rydych chi eisiau ychwanegu i'r rhestr yn y **bocs Aelod**
5. Clicio **Creu**

Bydd y rhestr newydd bellach yn opsiwn pan fyddwch yn ychwanegu ffrindiau i restrau.

Trefnu Rhestrau Ffrindiau

1. Dewiswch Restr Ffrindiau
2. Cliciwch y botwm Rheoli Rhestr (Ar yr ochr dde ar frig y dudalen, o dan y botwm Hafan)
3. Mae Golygu Rhestr yn caniatáu i chi dynnu neu ychwanegu ffrindiau i'r rhestr
4. Cliciwch ar ffrind i'w dileu
5. Cliciwch ar y cwymplen ar yr ochr chwith a dewis Ffrindiau. Cliciwch ar y bobl i'w hychwanegu i'r rhestr
6. Cliciwch Gorffen i'w hychwanegu

Cymrwch reolaeth o'ch Apiau a'ch Gemau!

Rheolwch ei'ch apiau

I ddileu rhaglenni neu gemau, diffoddwch neu addaswch y gosodiadau preifatrwydd:

1. Cliciwch ar y **Cwymplen** (ar yr ochr dde ar frig y dudalen) a dewis **Gosodiadau**
2. Cliciwch ar **Raglenni** yn y golofn chwith

Yna un ai:

- Hofran dros y rhaglen neu gêm hoffech ei ddileu a chlicio **x**

neu

- Hofran dros y rhaglen neu gêm a chlicio **Golygu** i addasu'r gosodiadau

neu

- dan **Apiau**, **Gwefannau**, ac **Ategion**, cliciwch **Golygu** ac yna **Analluogi Platfform**

Noder. Unwaith i chi ddileu'r rhaglen neu gêm, nid yw'n postio ar eich llinell amser rhagor, ond mae'n bosib fydd hen straeon yn parhau i ymddangos.

Blocio gwahoddiadau Apiau gan ffrindiau

Os ydych chi eisiau anwybyddu holl wahoddiadau apiau gan berson penodol:

1. Cliciwch ar y **Cwymplen** (ar yr ochr dde ar frig y dudalen) a dewis **Gosodiadau**
2. Cliciwch **Blocio** yn y ddewislen ar yr ochr chwith
3. Yn yr adran **Rhwystro gwahoddiadau apiau**, rhowch enw neu gyfeiriad e-bost y person rydych chi eisiau blocio rhag gyrru gwahoddiadau apiau

Noder. Nid yw ffrindiau yn cael gwybod pan fyddwch yn blocio gwahoddiadau apiau.

Chi sydd â'r rheolaeth!

Byddwch mewn rheolaeth

Defnyddiwch y **Dinosor Archwiliad Preifatrwydd**.

Cliciwch ar y clo clap a bydd y dinosor yno i'ch helpu gyda'ch gosodiadau preifatrwydd.

Yma byddwch yn gweld:

- Pwy sy'n gallu gweld fy mhethau?
- Pwy sy'n gallu cysylltu â mi?
- Sut mae atal rhywun rhag fy mhlagio?

Noder.

- Mae gosodiadau preifatrwydd Facebook yn helpu chi i reoli pwy sy'n gallu gweld eich cynnwys ar Facebook a sut rydych chi'n cysylltu â phobl eraill. I ddarganfod mwy, edrychwch ar yr **Hanfodion Preifatrwydd** NEWYDD yma **www.facebook.com/about/basics**
- Ystyriwch faint o wybodaeth rydych chi eisiau ei rhannu gyda gwahanol bobl. Ydych chi eisiau rhannu'r un pethau gyda'ch cyd-weithwyr ag yr ydych chi â'ch ffrindiau?

Pwy sy'n gallu gweld fy nghynnwys?

Ystyriwch dim ond gadael i'ch "Ffrindiau" weld popeth. Ond pan fydd tagio'n digwydd, mae angen cofio bod 'ffrindiau eich ffrindiau' hefyd yn gallu gweld pwy a beth rydych chi'n ei dagio. Am wybodaeth tagio gyfoes, ymwelwch â: **http://on.fb.me/PQzwdD.**

1. Cliciwch ar lwybrau byr Preifatrwydd (ar yr ochr dde ar frig y dudalen)
2. Cliciwch **Pwy sy'n gallu gweld fy mhethau**
3. O dan **Pwy all weld fy mhostiada yn y dyfodol**, dewiswch **Ffrindiau** o'r cwymplen

Noder. Edrychwch ar sut mae eich llinell amser yn edrych i'r cyhoedd wrth ddefnyddio'r offeryn Gweld Fel... yn eich llwybrau byr preifatrwydd.

Cadwch lygaid ar eich llinell amser

1. Cliciwch y llwybrau byr Preifatrwydd (ar yr ochr dde ar frig y dudalen)
2. Cliciwch ar **Gweld Mwy o Osodiadau** yna **Llinell Amser a Thagio**
3. Rhowch **Adolygu cynnwys mae ffrindiau yn eich tagio ynddo** ymlaen fel eich bod yn dew is beth sy'n ymddangos ar eich llinell amser.

Sicrhau nad oes modd eich darganfod mewn chwiliad gwe gyhoeddus!

1. Cliciwch y **cwymplen** (ar yr ochr dde ar frig y dudalen)
2. **Gosodiadau**, yna **Gosodiadau Preifatrwydd**
3. **Pwy sy'n gallu chwilio amdanoch?**
4. A ydych am i beiriannau chwilio gysylltu â'ch llinell amser?
5. Cliciwch Golygu a thynnu'r tic o'r bocs

Pwy sy'n gallu gweld eich cynnwys?

Mae gan Facebook reolyddion preifatrwydd mewnol sydd yn caniatáu i chi osod eich cynulleidfa i: **Preifat**, **Ffrindiau**, **Ffrindiau eich Ffrindiau**, **Cyhoeddus**, cyn i chi bostio diweddariad statws.

Noder.
Dim ond chi sy'n gweld y **Log Gweithgareddau**. Mae'r offeryn yma yn ei wneud yn haws i chi adolygu eich cynnwys a gwneud newidiadau i gynulleidfa cynnwys y gorffennol.

Sut ydw i'n newid yr hysbysebion dwi'n eu gweld?

Mae'r teclyn Hanfodion Preifatrwydd NEWYDD yn eich caniatáu chi i reoli'r hysbysebion rydych chi'n eu gweld wrth hoffi Tudalennau, ychwanegu diddordebau i'ch Llinell Amser a chlicio ar yr hysbysebion rydych chi'n meddwl sy'n ddefnyddiol neu o ddiddordeb. Er na fydd hyn yn newid faint o hysbysebion rydych chi'n eu gweld, bydd yn helpu Facebook i ddeall mwy am y pethau rydych chi'n eu hoffi a dylai'r hysbysebion fod yn fwy perthnasol.

Newid eich dewisiadau

I ddeall pam eich bod yn gweld hysbyseb penodol:

1. Cliciwch y **Groes** yng nghornel dde'r hysbyseb (**X**)
2. Dewiswch 'Pam ydw i'n gweld hyn?'

I guddio hysbysebion nad ydych eisiau eu gweld:

1. Cliciwch y **Groes** yng nghornel dde'r hysbyseb (**X**)
2. Dewiswch **'Cuddio Hysbyseb'**
3. Os nad ydych chi eisiau gweld mwy o hysbysebion gan hysbysebwr penodol. Dewiswch **'Cuddio popeth gan yr hysbyswr'**.
4. Llenwch y ffurflen sy'n dilyn i helpu Facebook i ddeall yr hysbysebion rydych chi eisiau a dim eisiau eu gweld.

Nodiadau

- Dim ond mewn rhannau penodol o Facebook y mae modd i chi reoli eich dewisiadau ar hyn o bryd.
- Mae'n bosib y byddwch yn parhau i weld hysbysebion yn ymddangos sy'n gysylltiedig â'r pethau rydych chi wedi'u dileu, hyd yn oed ar ôl gwneud y newidiadau. E.e. efallai byddwch yn gweld hysbyseb am ei fod wedi'i dargedu'n eang mewn tref neu ddinas.

Gallwch ddarganfod mwy am Hysbysebion Facebook yma: **http://on.fb.me/1kjXBwn**

Ddefnyddio Offerynnau Adrodd Facebook

Adrodd camdriniaeth i Facebook

Os ydych chi'n teimlo fel eich bod yn cael eich bwlio ar Facebook, gallwch adrodd am hyn ar y wefan gan ddefnyddio'r **Cwymplen** yng nghornel unrhyw bost. Defnyddiwch y nodwedd **Adrodd Gymdeithasol** i gael help gan riant, athro neu ffrind heb adrodd y bwli yn uniongyrchol.

Noder. Gall y teclyn Adrodd Cymdeithasol fod yn ddefnyddiol iawn os yw ffrind yn postio rhywbeth fel llun sy'n achosi embaras sydd efallai ddim yn torri rheolau Facebook. I ddysgu mwy am Adrodd Cymdeithasol ewch i **www.facebook.com/report**

Cofiwch gadw tystiolaeth a blocio defnyddwyr ymosodol gan ddefnyddio'r opsiwn **Blocio** ac wrth glicio ar yr eicon gêr ar flaen eu **Llinell Amser**. Mae blocio rhywun yn golygu na fyddant yn gallu cysylltu â chi ar Facebook mwyach.

Gallwch dracio datblygiad eich adroddiadau gan ddefnyddio'r **Dangosfwrdd Cefnogaeth**. Bydd hyn hefyd yn eich rhybuddio pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud am eich adroddiad. Gallwch ddarganfod hwn drwy glicio ar y **Cwymplen** (ar yr ochr dde ar frig y dudalen) a dewis **Gosodiadau, Dangosfwrdd Cefnogaeth**. Os nad yw cynnwys yn cael ei ddileu, bydd yr un a adroddodd yn cael gwybod y rheswm pam. Mae rhagor o wybodaeth am y **Dangosfwrdd Cefnogaeth** ar gael yma: **http://on.fb.me/IRcv7q.**

Noder. Mae nodweddion adrodd yr un fath ar bob dyfais.

Sut ydw i'n analluogi fy nghyfrif?

Sut ydw i'n analluogi fy nghyfrif Facebook?

Os ydych chi'n analluogi eich cyfrif Facebook, bydd eich llinell amser yn cael ei atal dros dro yn hytrach yn na chael ei ddileu yn gyfan gwbl. Ni fydd unrhyw un yn gallu darganfod eich cyfrif a ni fydd bellach yn ymddangos ar restrau Ffrindiau.

1. Cliciwch y **Cwymplen**
2. **Gosodiadau**
3. **Diogelwch** (ochr chwith y dudalen)
4. **Analluogi Eich Cyfrif**

⚠ Bydd yr holl ddata a gwybodaeth yn y cyfrif yn cael eu cadw ac yn gallu cael ei ailalluogi ar unrhyw adeg.

Sut ydw i'n dileu fy nghyfrif Facebook yn barhaol?

1. Cliciwch y **Cwymplen**
2. **Help.**
3. Teipiwch **"How do I permanently delete my account?"** (os ydych chi'n defnyddio Facebook yn yr iaith Gymraeg bydd angen newid gosodiadau iaith i Saesneg i hyn weithio) a dilynwch y ddolen i **gyflwyno'ch cais**.

⚠ Rhybudd! Bydd eich cyfrif Facebook yn cael ei **analluogi** am 14 diwrnod ac yn cael ei ddileu os nad yw'n cael ei ddefnyddio o fewn y cyfnod yma.

Cysylltiadau a Chymorth

Canolfan Diogelwch Facebook:
www.facebook.com/safety

Canolfan Cymorth Facebook:
www.facebook.com/help

Hwb Gwrth-Fwlio Facebook
www.facebook.com/safety/bullying

Hanfodion Preifatrwydd Facebook:
www.facebook.com/about/basics

Adrodd/Dileu tagiau fideo:
http://youtu.be/CaJYQXiu3PY

UK Safer Internet Centre
Ffôn: 0844 800 2382
Website: www.saferinternet.org.uk
E-bost: enquiries@saferinternet.org.uk

Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol
Ffôn: 0844 3814 772

Childnet
www.childnet.com

IWF
www.iwf.org.uk

Adrodd camdriniaeth neu baratoi i bwrpas rhyw (grooming) i CEOP
http://ceop.police.uk

Anti-Bullying Alliance
www.anti-bullyingalliance.org.uk

Childline
Ffôn: 0800 1111 www.childline.org.uk

Gwnewch y Gwiriad

Mynnwch gopi o'r rhestr wirio hon ynghyd â deunyddiau Diogelwch Ar-lein eraill yn siop SWGfL: **www.swgflstore.com**

UK Safer Internet Centre · SWGfL Education that Clicks · Saferinternet.at Das Internet sicher nutzen!

Cafodd yr adnodd yma ei greu yn wreiddiol gan Ganolfan Rhyngrwyd Ddiogelach Awstria (www.saferinternet.at) a'i addasu ar gyfer y DU gyda chaniatâd.

Cydariannir gan yr Undeb Ewropeaidd

Fersiwn: Chwef 2015